NEWYDDLEN CWLWM – TYMOR YR HYDREF 2025

# cwlwm



# Newyddlen Cwlwm – Tymor yr Hydref 2025

Croeso i newyddlen Cwlwm. Yn y rhifyn hwn, rydym yn tynnu sylw at y gefnogaeth fusnes sydd ar gael i'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae. O arweiniad ymarferol a chyllid, i gyfleoedd hyfforddi ac adnoddau sy'n helpu lleoliadau i dyfu a ffynnu, mae partneriaid Cwlwm yn parhau i weithio gyda'i gilydd i gryfhau'r sector a chefnogi'r rheini sy'n darparu gofal a dysgu o safon uchel i blant ledled Cymru.

## Cynnwys:

1. Tynnu Sylw at Gefnogaeth 3
2. Rheoli Cyllid 9
3. Digwyddiadau a Hyfforddiant ar y Gweill 11
4. Cefnogaeth Ddigidol a Marchnata 12
5. Datblygu'r Gweithlu 15
6. Gofalwn Cymru 18



# 1. Tynnu Sylw at Gefnogaeth

Mae partneriaid Cwlwm yn cynnig ystod eang o gefnogaeth i helpu lleoliadau i sefydlu, datblygu, a chynnal darpariaeth o ansawdd uchel. Mae arweiniad, hyfforddiant ac adnoddau yn sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn gofal rhagorol. P'un a ydych yn dechrau darpariaeth newydd neu'n cryfhau un sy'n bodoli eisoes, mae cefnogaeth ar gael trwy bartneriaid Cwlwm, Busnes Cymru, a Llywodraeth Cymru.

Cefnogaeth Allweddol:

- **Dechrau Arni:** Arweiniad cam wrth gam ar gofrestru, cynllunio busnes, a rheoliadau.
- **Rhedeg Eich Busnes / Elusen:** Cyngor arbenigol ar lywodraethu, strwythurau cyfreithiol, staffio, a materion ariannol.
- **Cyllid a Thyfiant:** Mynediad at gyllid a grantiau ar gyfer dyfodol cynaliadwy.
- **Datblygu Eich Tîm:** Hyfforddiant, datblygiad proffesiynol, a chymwysterau.
- **Trochi'r Gymraeg:** Adnoddau a mentora i gryfhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg.
- **Cefnogaeth Barhaus:** Pecynnau aelodaeth, sicrwydd ansawdd, a chyngor wedi'i deilwra.

Am ragor o wybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael, cysylltwch â'ch sefydliad ymbarél.





**Darllen Pellach:**

- Busnes Cymru – cefnogaeth busnes i ddarparwyr gofal plant a gwaith chwarae.
- Comisiwn Elusennau – GOV.UK – yn dangos sut i ddod o hyd i, i sefydlu a rhedeg elusen, a gwneud adroddiadau.
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – arweiniad, arolygiadau, cyfarfodydd ansawdd, ac adnoddau data

# Astudiaethau Achos Cefnogaeth Busnes

Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos sut gall cefnogaeth busnes pwrpasol helpu gofalwyr plant i addasu, gwella rheolaeth, a sicrhau dyfodol cynaliadwy.

## Cylch Meithrin Y Gurnos – Tyfu i Gwrdd ag Anghenion Teuluoedd




Gyda chefnogaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, lansiodd Cylch Meithrin Y Gurnos Glwb Gofal Plant ar Ôl Ysgol ar gyfer plant hyd at 12 oed. Darllenwch y stori lawn yma.

## Cefnogi Cylch Meithrin Cefnfaes Bethesda – Cryfhau Llywodraethant a Chynaliadwyedd Cyllidol

Mae Cylch Meithrin Cefnfaes Bethesda yn darparu addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2–4 oed, gan gynnwys cefnogaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Er gwaethaf cofrestriad AGC a bod yn rhan o gynllun Dechrau'n Deg a Chynllun Gofal Plant, roedd y ddarpariaeth yn wynebu ansicrwydd cyllidol, heriau wrth ganfod aelodau pwyllgor, ac roedd hyn oll yn peryglu cytundebau allweddol.

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

**Amcan a Nodau Allweddol:**

Darparu gofal o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg, cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ieithyddol plant, eu paratoi ar gyfer ysgol gynradd, a darparu cyfleoedd gwirfoddoli lleol.

**Y Gefnogaeth a Ddarparwyd:**

- Cyflwyniad i ymddiriedolwyr a diweddariadau gan y Comisiwn Elusennau
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r ddarpariaeth a monitro cynnydd
- Cymorth gyda bancio a rheoli materion cyllidol
- Adroddiadau parhaus i Grŵp Ansawdd Cyngor Gwynedd



### Canlyniadau a Llwyddiant:

Gyda phum ymddiriedolwr newydd weithgar, a chefnogaeth reolaidd gan Mudiad Meithrin, mae gan y ddarpariaeth nawr lywodraethant effeithiol, gweithrediadau sefydlog, mae'n gynaliadwy ac yn parhau i ddarparu addysg o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg.



## Blynyddoedd Cynnar Cymru – Helpu Ysgol i Lansio Darpariaeth Gofal Plant Newydd

Adnabyddodd ysgol gynradd leol angen am ofal plant hygyrch, o ansawdd uchel i deuluoedd yr ardal, felly aeth ati i sefydlu gwasanaeth ei hun.

**Ein Rôl::**
Gweithiodd Blynyddoedd Cynnar Cymru gyda'r ysgol i greu darpariaeth gofal plant gynaliadwy, gan ddarparu cefnogaeth i:


- **Cofrestru fel Elusen:** Arweiniodd BCC yr ysgol drwy'r broses o sefydlu Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE), gan sicrhau cymeradwyaeth mewn llai na wythnos.
- **Cynllunio Busnes:** Darparwyd templed cynhwysfawr yn cynnwys modelu ariannol, staffio, a chynaliadwyedd.
- **Arweiniad Cofrestriad Gofal Plant:** Cefnogwyd yr ysgol drwy ofynion rheoleiddiol a pharatoi ar gyfer arolygiadau.

### Canlyniadau ac Effaith:

Llwyddodd yr ysgol i sefydlu elusen gofrestredig, creu cynllun busnes ymarferol, a symud ymlaen yn hyderus trwy'r broses gofrestru. Mae'r gwasanaeth newydd bellach yn darparu gofal plant sydd ei angen yn fawr, yn gwella cyfleoedd dysgu, ac yn cryfhau ymgysylltiad â'r gymuned. Mae adborth gan bennaeth ysgolion yn amlygu gwerth y cymorth wrth leihau straen, adeiladu hyder, a galluogi ysgolion i ehangu eu gwasanaethau yn effeithiol.

## NDNA Cymru – Darparu Cefnogaeth Busnes i Feithrinfa Ddydd yn Wrecsam

Mae'r Feithrinfa Ddydd yn Wrecsam yn cynnig 118 o leoedd i blant rhwng 3 mis a 12 oed. Er bod y feithrinfa wedi cynnig lleoedd o dan Gynllun Gofal Plant ac Addysg Feithrin, nid oedd erioed cynnig llefydd Dechrau'n Deg. Bu NDNA Cymru'n cefnogi'r lleoliad i gyflwyno tendr llwyddiannus i ddarparu Dechrau'n Deg yn  Wrecsam.



**Rhwystrau:**


Mae'r sector feithrin yn ei chael hi'n anodd aros yn gynaliadwy oherwydd nifer o heriau cyllidol, gan gynnwys cynnydd yn yr isafswm cyflog, a chostau cyfleustodau a phensiynau.

**Y Gefnogaeth a Ddarparwyd:**

- **Cefnogaeth Fusnes a Thendro:** Arweiniad ar sut i ddefnyddio'r adnodd cymorth, cofrestru, a pharatoi tystiolaeth. Rhannwyd ein taflen Cefnogaeth Busnes a darparwyd dolenni i Busnes Cymru.




- **Grantiau:** Cymorth gyda cheisiadau am grantiau cyfalaf bach i uwchraddio adnoddau a'r amgylchedd heb ddefnyddio cyllid gweithredol. Darparwyd dolen i'n taflen ffeithiol 10 awgrym gorau ar gyfer ceisiadau grantiau






- **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP):** Mae NDNA yn cynnig cyrsiau i gefnogi busnesau mewn Cynllunio Ariannol a Rheoli; Arweinyddiaeth a Rheoli; Marchnata a Hyrwyddo; Strategaeth a Chynllunio Busnes.
- **Blogiau:** Cyngor ymarferol ar bynciau allweddol gan gynnwys: Pethau allweddol i'w hystyried wrth dyfu eich busnes meithrinfa drwy gaffaelion, Tribiwnlys Gwaith a blynyddoedd cynnar: beth sydd angen i chi ei wybod, a Rheoli pobl mewn meithrinfa.




## Canlyniadau a Myfyrdodau:

Cynigiodd NDNA Cymru gefnogaeth a chyngor i'r sector drwy eu rhwydweithiau ac ar sail un-i-un, gan ei galluogi i fanteisio ar y gwasanaethau a gynigir ganddynt. Drwy gynnig cefnogaeth busnes i'r sector gofal dydd llawn, mae'r darpariaethau wedi gallu asesu eu busnesau'n realistig ac ystyried ffyrdd o sicrhau llwyddiant parhaus.

Anogodd NDNA Cymru y ddarpariaeth i ystyried sut y gallent addasu neu amrywiaethu eu gwasanaethau. Un ffordd o wneud hyn oedd gweithio gyda ysgolion lleol i gynnig gofal coflediol neu glybiau all ysgol, gan ddarparu cyfleusterau gwirioneddol i deuluoedd lleol.







# 2. Rheoli Cyllid

Mae cael rheolaeth cyllidol dda yn allweddol i rediad darpariaeth gofal plant llwyddiannus. Ar gyfer unrhyw fusnes yn y sector hwn, mae rheoli cyllid yn dda yn hanfodol er mwyn aros yn gryf, yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy.

Dyma rai adnoddau a chyngor i'ch cefnogi:

- Systemau rheoli ariannol ar gyfer meithrinfeydd a lleoliadau blynyddoedd cynnar – Archwiliwch awgrymiadau ar gadw cyfrifon, ynghyd â dewis system briodol i reoli meithrinfa.
- Cynllunio a Rheoli Cyllid Effeithiol – cwrs ar-lein – Cyflwyniad i gynllunio a rheoli cyllid ar gyfer perchenogion a rheolwyr meithrinfeydd.
- 10 Awgrym Gorau ar gyfer Ceisiadau Grant – Cymru – Mae'r daflen ffeithiol rhad ac am ddim hon yn helpu lleoliadau gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae i gael mynediad at grantiau i wella gwasanaethau a chyfleoedd.





- **Busnes Cymru – Canfod Cyllid** – Darganfyddwch adnoddau a chanllawiau ar sut i ddod o hyd i'r cyllid cywir, gan gynnwys canfyddwr cyllid, gwybodaeth am Gronfa Datblygu Cymru, canllawiau ar wahanol fathau o gyllid, a chyngor ar weithio gyda chyfrifyddion.
- **Cyllid a Grantiau** – Adnoddau defnyddiol i Drysoryddion ar amryw o bynciau ariannol.
- **Llyfrau Bach Piws** – Canllawiau byr ar wahanol bynciau ar gyfer staff a Phwyllgorau Rheoli.
- **Ar gyfer Gwirfoddolwyr** – Arweiniad ar sefydlu a chefnogi pwyllgorau.
- **Mynd i'r Afael â Chostau Cynyddol** – awgrymiadau i helpu gweithwyr – Atebion ymarferol i helpu rheoli costau a theimlo'n fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau ariannol.
- **Gwneud Treth yn Ddigidol ar gyfer Treth Incwm** – Dysgwch beth mae'n ei olygu, beth sydd angen i chi ei wneud nawr, a pha eithriadau sy'n berthnasol.



# 3. Digwyddiadau a Hyfforddiant ar y Gweill

Mae partneriaid Cwlwm yn cynnig amrywiaeth eang o webinarau, gweithdai, neu ddigwyddiadau rhwydweithio i gefnogi datblygiad busnes a thyfiant proffesiynol. Dysgwch fwy ar wefannau'r sefydliadau ymbarél:

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs: Pob Hyfforddiant a Digwyddiad

Coram PACEY Cymru: Hyfforddiant yng Nghymru

Early Years Wales / Blynyddoedd Cynnar Cymru: Cynllunydd Hyfforddiant

Mudiad Meithrin (arbenigwyr y blynyddoedd cynnar / Welsh early years specialists): Academi

NDNA Cymru (National Day Nurseries Association): Hyfforddiant ar-lein / Hyfforddiant rhithiol byw






## Cyfarfod Briffio Maniffesto Cwlwm

Rydym yn falch o gyhoeddi y byddwn yn cynnal cyfarfod briffio maniffesto Cwlwm ar **ddydd Mawrth 10.2.2026 am 12pm**. Pwrpas y cyfarfod briffio yw eich hysbysu am y galwadau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn ein maniffesto a grëwyd gennym ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026. Bydd mwy o wybodaeth yn dilyn yn fuan.




# 4. Cefnogaeth Ddigidol a Marchnata



Yn y byd digidol heddiw, mae cael presenoldeb ar-lein cryf yn hanfodol i ddarpariaethau blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae. Mae rhieni a gofalwyr yn aml yn dechrau trwy chwilio ar-lein, felly mae gwefan gyfredol a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol gweithredol yn helpu i godi eich proffil, meithrin ymddiriedaeth ac apelio at deuluoedd a staff. Bydd dysgu sut i reoli'r cyfryngau cymdeithasol, gwella eich gwefan, a defnyddio offer digidol yn effeithiol yn helpu eich lleoliad i dyfu, aros yn gynaliadwy, a bod yn llwyddiannus yn yr hir dymor.

## Awgrymiadau ar y Cyfryngau Digidol a Chymdeithasol

- **Cadwch eich gwefan yn gyfredol** – Sicrhewch fod yr holl wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol, gan gynnwys oriau agor, manylion cyswllt a'r gweithgareddau neu sesiynau dysgu a gynigir.
- **Gwnewch hi'n gyfeillgar i ffonau symudol** – Mae llawer o rieni'n pori ar eu ffôn, felly dylai eich safle fod yn hawdd i'w ddefnyddio ar unrhyw ddyfais.
- **Defnyddiwch ddelweddau o ansawdd uchel** – Dangoswch eich darpariaeth a'ch gweithgareddau gyda lluniau clir a deniadol.
- **Tynnwch sylw at yr hyn sy'n eich gwneud yn unigryw** – Rhannwch yr hyn sy'n gwneud eich darpariaeth yn arbennig, fel eich cwricwlwm, cyfleoedd chwarae neu raglenni ychwanegol.
- **Casglwch a rhannwch dystebau** – Mae adborth cadarnhaol gan rieni yn meithrin ymddiriedaeth ac yn annog cofrestriadau newydd.
- **Darparwch gyfarwyddiadau clir** – Gwnewch hi'n hawdd i ymwelwyr gofrestru, cysylltu â chi, neu drefnu ymweliad.
- **Gwnewch hi'n hawdd i rieni ddod o hyd i chi ar-lein** – Defnyddiwch eiriau allweddol, fel y bydd eich darpariaeth yn ymddangos mewn chwiliadau.



## Awgrymiadau ar gyfer Gwella'ch Cyfryngau Cymdeithasol:

- **Byddwch yn gyson** – Postiwch yn rheolaidd fel eich bod yn aros yn weladwy ac er mwyn cadw mewn cysylltiad â rhieni.
- **Defnyddiwch gynnwys gweledol** – Mae lluniau a fideos yn denu mwy o sylw na thestun yn unig, ac yn helpu i ddangos eich darpariaeth ar waith.




- **Ymgysylltwch â dilynwyr** – Atebwch sylwadau a negeseuon i feithrin cysylltiadau gyda'ch cymuned.
- **Adroddwch straeon** – Rhannwch brofiadau dysgu, gweithgareddau hwyl a chyflawniadau staff er mwyn rhoi darlun realistig o'ch darpariaeth i'ch dilynwyr.
- **Defnyddiwch hash nodau** – Mae'n helpu mwy o deuluoedd i weld eich postiadau.
- **Cynlluniwch eich cynnwys** – Defnyddiwch galendr syml i drefnu postiadau a chadw'ch negeseuon yn drefnus.
- **Mesurwch ac addaswch** – Edrychwch pa bostiadau sy'n derbyn y sylw  mwyaf ac ewch ati i greu mwy o gynnwys tebyg  i gynyddu ymgysylltiad gyda'r gynulleidfa.



**Eisiau tyfu eich presenoldeb digidol, neu gwella eich cyfryngau cymdeithasol a'ch gwefan, cymerwch olwg ar y rhain:**

- Awgrymiadau Canva ar gyfer Marchnata – Awgrymiadau ar sut i farchnata eich darpariaeth.
- Marchnata eich meithrinfa: diffinio pwynt gwerthu unigryw eich meithrinfa (USP) – Dysgwch sut i ddangos beth sy'n gwneud eich meithrinfa'n unigryw ac yn wahanol i'r darpariaethau eraill.
- Marchnata a Hyrwyddo'n Effeithiol – cwrs ar-lein – Dysgwch y dulliau marchnata gorau i wneud i'ch meithrinfa sefyll allan yn eich cymuned leol.
- Gweithwyr Blynyddoedd Cynnar: defnyddio diogelwch seiber i warchod eich darpariaethau / Gweithwyr Blynyddoedd Cynnar: defnyddio diogelwch seiber i warchod eich darpariaethau
- Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer y Trydydd Sector – Cwrs gan CGGC i helpu elusennau i wella sgiliau cyfathrebu a digidol er mwyn cyrraedd nifer uwch o bobl.
- Cymreigio Eich Cyfrifon Cymdeithasol – Sesiwn ar-lein 1 awr gan CGCC mewn fformat dwyieithog (Saesneg/Cymraeg) ar greu cynnwys cyfryngau cymdeithasol dwyieithog effeithiol.
- Media Trust – Digwyddiadau sydd ar gael i helpu i ymgysylltu â'ch cynulleidfaoedd trwy farchnata, cyfryngau a chyfathrebu.
- Hyfforddiant Sarah Tamsin – Hyfforddiant Digidol wedi'i deilwra ar gyfer Elusennau a Sefydliadau Bach yng Nghymru.



# 5. Datblygu'r Gweithlu

Mae buddsoddi mewn sgiliau, gwybodaeth, a lles staff yn allweddol i ddarparu gofal o ansawdd uchel, gweithrediadau llyfn a chynaliadwyedd hirdymor. Mae hyfforddiant parhaus yn gymorth wrth recriwtio a chadw staff medrus, cydymffurfio â safonau rheoleiddiol, ac addasu i newidiadau o fewn y sector. Mae Cwlwm yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau ac adnoddau, gan gynnwys hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg, i godi hyder, gwella arferion, a pharatoi at ddyfodol y sector.

- Fframwaith Cymwysterau – Dewch o hyd i'r cymhwyster sydd ei angen ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig yng Nghymru.
- Camau – Cyrsiau ac adnoddau Cymraeg i helpu staff i godi hyder a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn eu gwaith bob dydd gyda phlant.
- Clebran – Cefnogaeth Gymraeg i grwpiau chwarae a meithrinfeydd Saesneg eu hiaith nad ydynt yn aelodau Mudiad Meithrin.
- Croesi'r Bont – Dull trochi iaith i gyflwyno'r Gymraeg i blant ifanc sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin.
- Addewid Cymraeg – Cefnogaeth i staff a darpariaethau i feithrin eu hyder a'u sgiliau wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda phlant.
- Cam Wrth Gam – Cyrsiau gofal plant Lefel 3 a Lefel 5 ar gyfer staff mewn lleoliadau Mudiad Meithrin, meithrinfeydd preifat Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Cynllun Ysgolion Cam Wrth Gam – Cwrs gofal plant ar gael i ysgolion uwchradd yng Nghymru.
- Dod yn Warchodwr Plant yn Nghymru – Mae gwefan Coram PACEY yn cynnig arweiniad ar fanteision bod yn warchodwr plant yng Nghymru, a'r broses gofrestru i.. Efallai fod cyllid ar gael i gefnogi gyda chostau cofrestru.
- Ydych chi'n ystyried cyflogi staff! – Gwybod eich cyfrifoldebau fel cyflogwr.
- Cymwysterau Gwaith Chwarae – Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs – Canolfan gymeradwy gyda'r Sefydliad Gwobrwyo, NcFE ac Agored Cymru, sy'n cynnig cymwysterau Gwaith Chwarae Lefel 2, 3 a 5 wedi'u hariannu'n llawn, gan gynnwys y Wobr Trosi i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar

(i'r rhai sydd â Lefel 3 mewn gofal plant, gwaith ieuenctid, ysgol goedwig, neu gefnogaeth addysgu). Mae cyrsiau datblygiad proffesiynol byr hefyd ar gael.

- Gyrfaoedd Gweithlu Blynyddoedd Cynnar Cymru – Archwiliwch gyfleoedd gwerthfawr a daw wrth weithio gyda phlant yn eu blynyddoedd cynnar, a darganfyddwch ble gall eich gyrfa yn y blynyddoedd cynnar eich arwain.
- Adnodd Gweithredu gyda Phobl Ifanc – Adeiladwch partneriaethau a gweithiwch gyda phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a staff i ysbrydoli eu gyrfaoedd yn y blynyddoedd cynnar.
- Adnoddau Cyflogwyr Blynyddoedd Cynnar – Amrywiaeth o adnoddau i helpu lleoliadau i fanteisio ar recriwtio a dod o hyd i'r ymgeiswyr cywir, gan gefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar i ffynnu.



## Darllen pellach:

Darllenwch yr astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at lwyddiannau gweithwyr proffesiynol a manteisiodd ar gyfleoedd hyfforddi a chymwysterau:

- Hyfforddiant Gwaith Chwarae – Cefnogi Clwb All-Ysgol Iaith Gymraeg sy'n Cofrestredig ag AGC i Agor
- (Sir y Fflint) Astudiaeth Achos Cwrs Gwaith Chwarae Lefel 1
- **Gofynion Diweddar ar gyfer Gwarchodwyr Plant yng Nghymru** – O Dachwedd 2024, rhaid i bob warchodwr plant yng Nghymru gwblhau cwrs cydnabyddedig o Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. Yr hyfforddiant sydd ei angen yw Cyflwyniad i Ofal Plant yn y Cartref (IHC), a gaiff ei ddarparu gan Coram PACEY Cymru. Darllenwch am Sara Ahmed-Pattisahusiwa, a gwblhaodd yr IHC ar ôl 18 mis fel cynorthwyydd. Heb unrhyw brofiad ffurfiol o ofal plant heblaw am fagu ei phlant ei hun, mae Sara bellach yn gweithio mewn lleoliad gofal plant prysur sy'n cyflogi dau gynorthwyydd i fodloni'r galw lleol.
- Darllenwch sut mae Lullabyz Day Nursery yng Nghasnewydd yn ceisio creu darpariaeth gwrth-hiliollle mae pob plentyn yn teimlo'n arbennig a'i fod yn cael ei weld a'i glywed.





# 6. Gofalwn Cymru

Mae Gofalwn Cymru yn cynnig offer ac adnoddau amrywiol i helpu cyflogwyr yng Nghymru i recriwtio, hyfforddi a rheoli staff.







**Cyflwynwch swydd:** Gallwch hysbysebu swyddi gwag yn uniongyrchol i gyrraedd staff gofal posibl.

**Pecyn cymorth:** Hwb adnoddau sy'n cynnwys deunyddiau ar gyfer rheoli eich gweithlu.

**Canllawiau prentisiaethau:** Gwybodaeth a chymorth ar gynnig prentisiaethau i feithrin eich talent eich hun.

**Enwebu Llysgenhadon:** Cyfle i enwebu staff i ddod yn llysgenhadon Gofalwn Cymru, gan helpu i hyrwyddo'r sector.

### Cyfryngau cymdeithasol...

Cadwch yn gyfredol â'n newyddion diweddaraf ar y cyfryngau cymdeithasol. Tagiwch ni yn eich negeseuon cyfryngau cymdeithasol a byddwn yn rhannu eich negeseuon chi gyda'n cynulleidfa ni.

Gofalwn .cymru | WeCare .wales

## Instagram
GofalwnCymruCares
www.instagram.com/gofalwncymrucares

## Threads
GofalwnCymruCares
www.threads.com/@gofalwncymrucares

## Facebook
WeCareWales
www.facebook.com/WeCareWales

GofalwnCymru
www.facebook.com/GofalwnCymru

## Bluesky
@wecarewales.bsky.social
bsky.app/profile/wecarewales.bsky.social

@gofalwncymru.bsky.social
bsky.app/profile/gofalwncymru.bsky.social

## LinkedIn
Gofalwn Cymru | WeCare Wales
www.linkedin.com/company/gofalwn-cymru-wecare-wales/

## Youtube
GofalwnCymruCares
www.youtube.com/@gofalwncymrucares244

Am ddiweddariadau misol, ymunwch â'n rhestr bostio yma.





www.cwlwm.org.uk

Mae partneriaeth Cwlwm yn cynnwys y sefydliadau isod:


**CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUBS**
Bridge House, Station Road, Llanishen, Caerdydd CF14 5UW
**Ffôn:** 029 2074 1000 **E-bost:** info@clybiauplantcymru.org

**BLYNYDDOEDD CYNNAR CYMRU**
Uned 9, Centre Court, Treforest, Rhondda Cynon Taff, CF37 5YR
**Ffôn:** 029 2045 1242 **E-bost:** info@earlyyears.wales

**MUDIAD MEITHRIN**
Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint-Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1PD
**Ffôn:** 01970 639639 **E-bost:** post@meithrin.cymru

**NDNA CYMRU**
NDNA Cymru, 3 Connaught House, Riverside Business Park, Ffordd Benarth, Conwy LL32 8UB
**Ffôn:** 01824 707823 **E-bost:** wales@ndna.org.uk

**CORAM PACEY CYMRU**
The Maltings, East Tyndall Street, Caerdydd, CF24 5EZ
**Ffôn:** 02920 351407 **E-bost:** cymru@corampacey.org.uk